**Grŵp Trawsbleidiol Cymru ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol**

**Crynodeb o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2015**

*Yn bresennol:*
*Bethan Jenkins AC, Jenny Rathbone AC*
*30-40 o bobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau cyhyrau'n nychu a gweithwyr iechyd proffesiynol*
*Muscular Dystrophy UK*
*Dr Tracey Cooper, Cadeirydd Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru*

Dechreuodd Bethan Jenkins AC y cyfarfod a chroesawodd Dr Tracey Cooper, Cadeirydd newydd Rhwydwaith Niwrogyhyrol Cymru.

Dr Tracey Cooper:

- Mae angen ymgysylltu â Grŵp Gweithredu Cyflyrau Niwrolegol Cymru, ac mae sicrhau bod rhagor o fynediad at ffisiotherapi arbenigol oedolion a chefnogaeth seicoleg yn flaenoriaeth fawr
- Mae angen i'r achos busnes a luniwyd gan Rwydwaith Niwrogyhyrol Cymru gael ei adnewyddu
- Pwysleisio'r egwyddor buddsoddi i arbed - arbed arian a helpu pobl
- Gweithio gyda Rhwydwaith Niwrowyddorau Gogledd Cymru – mae'n bwysig nad ydym yn colli'r ffocws niwrogyhyrol
- Mae disgwyliad bod argymhellion y Grŵp Gweithredu Cyflyrau Niwrolegol wedi'u hymgorffori gan y Byrddau Iechyd
- Hydrotherapi - mae chwe sesiwn ar gael, yna maent yn dod i ben - nid yw hyn yn helpu pobl â chyflyrau cyhyrau'n nychu
- Mae angen rhagor o glinigau amlddisgyblaethol a chydgysylltu gwasanaethau'n well
- Mae angen edrych ar yr egwyddor siop un-stop ar gyfer apwyntiadau clinig

Rhoddodd *Muscular Dystrophy UK* y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai a oedd yn bresennol am brosiect newydd i ddatblygu cymorth gan gyfoedion i bobl sydd â chyflyrau cyhyrau'n nychu.